

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Briff Ymchwil

Ionawr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: Katy.Orford@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Briff Ymchwil

Ionawr 2019

Awduron:

Chris Wiseall and Katy Orford

Trosolwg o'r papur:

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Chris Wiseall gan y Cyngor Ymchwil Peirianeg a'r Gwyddorau Ffisegol, a allugodd i'r briff ymchwil hwn gael ei gwblhau.

Mae *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn cyflwyno nifer o fesurau i wella ac amddiffyn yr amgylchedd yng Nghymru. Mae'n cyflwyno newid yn yr ymagwedd at faterion amgylcheddol, gan hybu dull systemig ac integreiddio â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a *Deddf Cynllunio (Cymru) 2015*.

Mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar Ran 1 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*; sef dull rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR).



Cynnwys

Cyflwyniad i Ddeddf yr Amgylchedd	1
Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR)	2
Egwyddorion SMNR	2
Cynlluniau arbrofol	3
Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau	4
Fframwaith polisi.....	5
Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)	6
Y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)	8
Datganiadau ardal	10
Sut y caiff llwyddiant ei fesur	13
Ymagwedd systemig	14
Brexit a'r amgylchedd	15
Y prif ffynonellau	17

Cyflwyniad i Ddeddf yr Amgylchedd

Cafodd **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**, ('Deddf yr Amgylchedd'), y Cydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Nod y Ddeddf yw caniatáu i'r amgylchedd yng Nghymru gael ei reoli mewn ffordd fwy "**rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig**". Mae'n caniatáu i adnoddau naturiol Cymru gael eu rheoli ar lefel genedlaethol a lleol trwy fframweithiau gwahanol.

Mae'r briff hwn yn canolbwyntio ar Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd. Mae'n edrych ar y dull rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR) a'r ddyletswydd estynedig berthynol ar fioamrywiaeth a cyfnerthedd ecosystemau. Mae'n amlinellu'r fframwaith polisi y darperir ar ei gyfer yn Deddf yr Amgylchedd gan gynnwys:

- Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)
- Y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP); a
- Datganiadau ardal.

Cyflwynir amryw o ddyletswyddau newydd i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau cyhoeddus eraill. Manylir ar y rhain yn y briff hwn ac fe'u crynhoir ym Mluch 3.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol; mae adrannau 6 a 7 yn disodli Adrannau 40 a 42, yn y drefn honno, o **Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006** ('Deddf NERC').

Mae Deddf yr Amgylchedd yn eang ac mae'n cynnwys chwe Rhan arall; newid yn yr hinsawdd, taliadau am fapiau siopa, casglu a gwaredu gwastraff, pysgodfeydd pysgod cregyn, trwyddedu morol ac adran amrywiol sy'n cynnwys llifogydd, erydu'r arfordir a draenio. Mae'r rhain y tu allan i gwmpas y briff hwn.

Bluch 1- Diffiniadau o dermau yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd

Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR) - 'defnyddio adnoddau naturiol mewn modd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt;

Bioamrywiaeth - 'amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem';

Adnoddau naturiol - 'yn cynnwys y canlynol (ond nid yw wedi ei gyfyngu iddynt) anifeiliaid, planhigion ac organeddau eraill; yr aer, dŵr a phridd; mwynau; nodweddion a phrosesau daearegol; nodweddion ffisiograffigol; nodweddion a phrosesau hinsoddol.

Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (SMNR)

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod **Deddf yr Amgylchedd yn cydnabod bod adnoddau naturiol ymysg asedau pwysicaf Cymru** (PDF, 99KB). Mae'n cynnwys fframweithiau polisi, er mwyn sicrhau bod SMNR yn ystyriaeth graidd wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Egwyddorion SMNR

Mae Adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd yn cyflwyno naw egwyddor i helpu i lywio a chynnal y ffordd y dylid dehongli SMNR i sicrhau dull cyson ar gyfer SMNR ledled Cymru:

- **Ymaddasu** - angen cynllunio, monitro, adolygu a newid gwaith yn y dyfodol yng ngoleuni tystiolaeth a dealltwriaeth newydd;
- **Graddfa** - bydd angen cymryd penderfyniadau a chamau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau;
- **Cydweithio** - mae pawb yng Nghymru yn rhanddeiliad yn yr amgylchedd naturiol ac felly, er mwyn sicrhau'r rheolaeth orau ar adnoddau naturiol, mae angen ystyried pob barn;
- **Ymgysylltu â'r cyhoedd** - sicrhau bod gan y cyhoedd gyfle i roi eu barn ar sut y rheolir adnoddau naturiol, ym mhob cyfnod o'r broses benderfynu;
- **Tystiolaeth** - mae angen cronfa dystiolaeth well i ddeall adnoddau naturiol Cymru er mwyn caniatáu gwell rheolaeth;
- **Deall yr holl fanteision sy'n dod o adnoddau naturiol** - mae angen i Gymru gyfan ddeall gwerth economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol adnoddau naturiol, gan gynnwys sut y gallant fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol;
- **Hirdymor** - mae angen ystyried effeithiau penderfyniadau nid yn unig yn y tymor byr ond hefyd yn y tymor hir;
- **Atal** - cymryd camau i atal difrod i ecosystemau Cymru; a
- **Chydnerthedd** - er mwyn gallu delio â gofynion a phwysau cynyddol, fel newid yn yr hinsawdd, mae angen i ecosystemau Cymru fod yn iach. Mae angen i benderfyniadau gael eu hystyried yn nhermau darparu manteision hirdymor.

- Mae Adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ail-alinio pwrpas cyffredinol CNC i fynd ar drywydd SMNR o ran Cymru a chymhwyso egwyddorion SMNR.

Cynlluniau arbrofol

Er mwyn penderfynu pa gamau sy'n gwneud y cyfraniad gorau at SMNR, mae Adran 22 o Ddeddf yr Amgylchedd yn caniatáu i **CNC arbrofi a threialu gwahanol ddulliau sy'n helpu i wneud y canlynol** (PDF, 111KB):

- Datblygu technegau rheoli newydd i wella cyfnerthedd yr ecosystemau;
- Asesu atebion wedi'u seilio ar natur fel dull o fynd i'r afael â phroblemau penodol, fel rheoli mawnogydd;
- Datblygu'r arferion gorau ar gyfer mynd ati i wneud gweithgaredd penodol.

Fel rhan o'r ddarpariaeth hon, mae Adran 22 o Ddeddf yr Amgylchedd yn caniatáu i Weinidogion Cymru atal darpariaethau penodol mewn deddfwriaeth amgylcheddol am gyfnod cyfyngedig i ganiatáu i'r cynlluniau arbrofol gyfrannu at SMNR.

Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

O dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd, disgwylir i awdurdodau cyhoeddus Cymru (**fel y'u diffinnir yn Adrannau 6(9) a 6(10)**), "hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau" (gweler Blwch 2) a "chynnal a gwella bioamrywiaeth". Yr enw ar hyn yw'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r darpariaethau hyn yn mynd y tu hwnt i'r Ddeddf NERC lle disgwylid i'r awdurdodau cyhoeddus "cadw bioamrywiaeth".

Dywedir bod y ddyletswydd bioamrywiaeth estynedig yn cydnabod y **cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a gweithrediad ecosystemau yn y tymor hir**.

Blwch 2: Egwyddorion cydnerthedd ecosystemau

Mae Adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd yn darparu'r nodweddion y bernir eu bod yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau:

Amrywiaeth - mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy cydnerth yn erbyn dylanwadau allanol a'u heffeithiau. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth biolegol, daearegol a chorfforol;

Cysylltiadau - o fewn ecosystemau a rhwng ecosystemau;

Graddfa a Maint - mwyaf yn y byd y mae'r ecosystem yn ymestyn, heb ei darnio, mwyaf cydnerth y mae'n debygol o fod;

Cyflwr - mae angen i ecosystemau fod mewn cyflwr iach i weithredu'n effeithiol, er mwyn darparu ystod o wasanaethau ecosystemau pwysig; ac

Addasu - gallu ecosystemau i addasu i ddigwyddiadau, gan ddeall nad yw ecosystemau'n sefydlog ac y byddant yn newid dros amser.

O dan Adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi eu gweithredoedd arfaethedig i wella bioamrywiaeth a chyfnerthedd ecosystemau. Disgwylid y cynlluniau bioamrywiaeth a chyfnerthedd **o fewn blwyddyn ar ôl i Ddeddf yr Amgylchedd gael y Cydsyniad Brenhinol, i ganiatáu amser cyn adroddiadau ar gynnydd cyn diwedd 2019**. Serch hynny, nid yw hyn yn ofyniad statudol ac nid yw pob cynllun wedi'i gyhoeddi. Mae enghreifftiau o gynlluniau wedi'u cyhoeddi **ar gael ar hyn o bryd** gan awdurdodau lleol Sir Fynwy, Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot (y gwymplen 'Cynlluniau Adran 6' ar y wefan).


Mae Adran 6(7) o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus lunio adroddiad, cyn diwedd 2019 a phob tair blynedd ar ôl 2019, ar y cynnydd cyfredol i wella bioamrywiaeth a chyfnerthedd ecosystemau. Yn flaenorol, o dan *Ddeddf NERC*, roedd trefniant gwirfoddol ar waith.

Mae **canllawiau bioamrywiaeth** wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i helpu'r awdurdodau cyhoeddus i ddeall y telerau a'r hyn a ddisgwylir, fel y darperir ar ei gyfer o dan Adran 6(4) o Ddeddf yr Amgylchedd.

O dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n rhaid hefyd i Lywodraeth Cymru, trwy ymgynghori â CNC, gyhoeddi rhestrau o **gynefinoedd a rhywogaethau** sydd â blaenoriaeth ac sydd yn ei barn hi yn bwysig o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Yna disgwylir i'r awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ac annog eraill i wneud yr un peth. Ar hyn o bryd, mae'r rhestrau hyn wedi'u trawsosod o'r Ddeddf NERC, ond y disgwyl yw y cânt eu diwygio gan Lywodraeth Cymru.

Fframwaith polisi

Mae Deddf yr Amgylchedd yn darparu ar gyfer fframwaith polisi newydd i gyflwyno SMNR yng Nghymru. Nod y fframwaith hwn yw ymgorffori SMNR fel ystyriaeth graidd ym mhenderfyniadau'r awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru. Bwriad y gwahanol agweddau ar y fframwaith a gyflwynir yma yw ategu a llywio'i gilydd, fel y gwelir yn Ffigur 1. Y gwahanol agweddau yw: yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR); y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP); a datganiadau ardal sy'n cael eu hesbonio yn eu tro isod.



Ffigur 1 - Fframwaith polisi i weithredu SMNR ledled Cymru

Yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)

O dan Adran 8 o Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ofynnol i CNC gynhyrchu **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)**. Mae'r adroddiad yn asesu cyflwr a maint yr adnoddau naturiol yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn gwerthuso'u gallu i ymateb i bwysau, megis newid yn yr hinsawdd. Gwelir SoNaRR fel cronfa dystiolaeth holl-bwysig yn y broses o adfer adnoddau naturiol Cymru. Fe'i defnyddir i lywio Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) Llywodraeth Cymru (y manylir arno isod). Mae hefyd yn hysbysu'r awdurdodau cyhoeddus am gyflwr adnoddau naturiol Cymru fel y gall y rhain gael eu hystyried wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Mae asesiad y SoNaRR wedi'i rannu'n dri phrif gam, a'r rheiny:

- Yn cydnabod statws amgylcheddol adnoddau naturiol ac ecosystemau, gan amlygu lle mae cyfnerthedd ecosystem yn cael ei gyfaddawdu;
- Yn nodi perthnasoedd rhwng ecosystemau a'r manteision y gallant eu darparu; ac
- Yn deall y defnyddio a'r rheolaeth ar adnoddau naturiol, yn asesu a ydynt yn cael eu rheoli ar hyn o bryd 'yn 'gynaliadwy' neu'n 'anghynaliadwy' ac yn nodi unrhyw 'fethiannau system'.

Mae'r SoNaRR yn ailadroddol a rhaid ei ddiweddararu i hysbysu gwneuthurwyr polisi a rhanddeiliaid am gyflwr presennol yr amgylchedd yng Nghymru. Caiff ei ddiweddararu bob pum mlynedd, cyn pob etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i sicrhau bod y data mwyaf diweddar yn cael ei ddefnyddio. O'r ail adroddiad SoNaRR ymlaen bydd drafft hefyd yn cael ei ddarparu 12 mis cyn yr adroddiad terfynol.

Mae'r SoNaRR hefyd yn rhyngweithio â'r polisi cynllunio gan y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio yn gronfa dystiolaeth ynghylch **"defnyddio adnoddau naturiol yn unol â nodau cenedlaethol a lleol"**. Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** (y Ddeddf Cynllunio) yn sicrhau datblygiad cynaliadwy, ac mae'n ofynnol i'r **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** fynd trwy **werthusiad cynaliadwyedd** y bydd angen cronfa dystiolaeth gadarn ar ei gyfer.

SoNaRR 2016

Cyhoeddwyd y SoNaRR cyntaf ym mis Medi 2016 a mynegodd bryderon am gyflwr amgylchedd naturiol Cymru. Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod:

- Mae llawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn dirywio
- **Methodd Cymru â chyrraedd ei thargedau bioamrywiaeth rhyngwladol a chenedlaethol yn 2010**, ac mewn sawl achos mae'r dirywiad wedi parhau.
- Mae amrywiaeth yn dirywio fel y mae colli cynefinoedd a rhywogaethau yn ei ddangos;
 - ◆ Mae maint rhai cynefinoedd wedi dirywio'n sylweddol
 - ◆ Mae cyflwr cynefinoedd yn dangos canlyniadau cymysg
 - ◆ Mae cysylltedd cynefinoedd wedi lleihau'n sylweddol
 - ◆ Mae gan bob cynefin broblemau o ran cydnerthedd.

- Adlewyrchir amrywiadau rhanbarthol mawr yn yr ecosystemau yn y modd y cafodd y tir ei ddefnyddio trwy hanes a'r modd y cafodd cynefinoedd eu colli;
 - ◆ Mae maint a chysylltedd ecosystemau yn tueddu i fod yn uchel yn ardaloedd y brynau a'r glannau
 - ◆ Mae maint a chysylltedd ecosystemau yn tueddu i fod yn is mewn ardaloedd isel a cheir phryder arbennig ar hyd dyffrynnoedd yr afonydd mawr
- Mae pryder mawr am gydnerthedd hirdymor mynyddoedd, gweundiroedd a rhostiroedd.
- Mae ystod eang o faterion yn cyfrannu at y gostyngiad yng nghyferthedd ecosystemau Cymru, gan effeithio yn ei dro ar lesiant pobl;
- Does dim sylw llawn yn cael ei roi i holl werth ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn llawer o brosesau penderfynu; ac
- Er bod llawer o ffynonellau wedi'u defnyddio i gasglu'r data, mae bylchau arwyddocaol yn y data o hyd, y bydd angen mynd i'r afael â nhw.

Mae blogiad mwy cynhwysfawr ar ganfyddiadau'r SoNaRR cyntaf **wedi ei gyhoeddi ar Flog Ymchwil y Senedd, Pigion.**

Y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP)

Mae Adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi **Polisi Adnoddau Naturiol** (NRP) o fewn 10 mis ar ôl i'r adran honno ddod i rym. Rhaid iddo amlinellu'r cyfleoedd, y blaenoriaethau a'r risgiau ynglŷn ag SMNR yng Nghymru, gan gysoni'r polisiau ag egwyddorion SMNR.

Mae CNC yn nodi bod y Polisi **yn cynnig newid yn y dull o ddatrys problemau ar ei ben ei hun ac yn cydnabod yr angen am ymagwedd systemig at yr amgylchedd.** Fe'i cynlluniwyd hefyd i arwain sut mae CNC yn creu 'datganiadau ardal' (manyion isod), gan sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn helpu i lywio penderfyniadau lleol.

Blaenoriaethau, cyfleoedd a heriau ar gyfer SMNR

Cafodd yr NRP **ei gyhoeddi ym mis Awst 2017.** Mae'n cynnwys blaenoriaethau, cyfleoedd a heriau ar gyfer adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod yr angen i ecosystemau fod yn iach a chydnerth os yw Cymru am ddibynnu arnynt i ddarparu'r ystod o fuddion a geir ar hyn o bryd. Mae'n cydnabod hefyd bod disgwyl i'r her o gefnogi ecosystemau gynyddu gyda phwysau cymdeithasol ac amgylcheddol cynyddol.

Y tair **blaenoriaeth** polisi cenedlaethol a nodwyd yn yr NRP yw:

- Darparu atebion yn seiliedig ar natur;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau; ac
- Arddel ymagwedd sydd wedi'i seilio ar le.

Y pedwar prif **gyfle** a nodwyd yn yr NRP yw:

- Cefnogi cymunedau llwyddiannus a chynaliadwy;
- Hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi i greu swyddi cynaliadwy;
- Cefnogi economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau; a
- Chynnal cymunedau iach, gweithredol a chysylltiedig.

Y tair prif **her** a nodwyd yn yr NRP yw:

- Gwella cyfnerthedd ecosystem;
- Newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn amrywiaeth biolegol; ac
- ymadawriad y Deyrnas Unedig â'r UE.

Mae Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, **Lesley Griffiths, hefyd yn gobeithio y bydd yr NRP yn gwella nifer o feysydd yn economi Cymru** (PDF, 968KB) trwy wneud y canlynol:

- Gwella capasiti prosesu a'r gwerth sy'n deillio o gadwyni cyflenwi Cymru;
- Adeiladu enw da Cymru am gynnyrch a safonau o ansawdd dda;
- Gweithio gyda natur i gynyddu cyfnerthedd ecosystemau a gwella cynhyrchiant;
- Symud tuag at economi fwy cylchol a chyflymu twf gwyrdd; a
- Chefnogi dyfodiad marchnadoedd sy'n cefnogi buddsoddiadau cynyddol gan gynnwys dŵr, carbon ac ynni adnewyddadwy.

Cytundebau rheoli tir

Mae'r NRP yn caniatáu ar gyfer cytundebau gwirfoddol rhwng CNC a thirfeddianwyr (PDF, 111KB) neu bobl eraill i hybu rheolaeth gynaliadwy ar dir. O dan y cytundebau hyn gall CNC gytuno i wneud y canlynol:

- Diogelu a chadw fflora a ffawna ardal e.e. trwy gynnal gwrychoedd;
- Rheoli tir mewn ffordd a all gyfrannu at liniaru llifogydd trwy blannu, cynnal neu beidio â chwmpo'r coed mewn ardal benodol; a

- Rheoli gweithgareddau (e.e. cynaeafu coetir) ar y tir.

Mae CNC hefyd yn gallu rhwymo perchnogion tir i reoli tir yn gynaliadwy trwy gytundebau hirdymor rhwng y perchennog tir a'r gofrestrfa tir. Bwriedir i'r cytundebau hyn barhau hyd yn oed os yw'r tir yn cael ei werthu, gan roi sicrwydd hirdymor felly ynglŷn ag agweddau fel cynnal-a-chadw tir ar gyfer rheoli llifogydd.

Yr NRP a meysydd polisi eraill

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cysoni meysydd polisi eraill â'r NRP er mwyn bodloni meini prawf ar gyfer Deddf yr Amgylchedd a nodau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**. Dyma'r **meysydd polisi y mae'n debygol y bydd yr NRP yn effeithio arnynt** (PDF, 968KB):

- | | |
|------------------------------------|---|
| ▪ Amaethyddiaeth a Bwyd | ▪ Coed a Choetiroedd |
| ▪ Polisi Economaidd | ▪ Dŵr a Llifogydd |
| ▪ Addysg | ▪ Iechyd a Lles Anifeiliaid |
| ▪ Pysgodfeydd a'r amgylchedd morol | ▪ Y Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| ▪ Seilwaith | ▪ Tirweddau a'n Hamgylchedd Hanesyddol |
| ▪ Diwygio Rheoleiddiol | ▪ Ansawdd Amgylcheddol Lleol a Llesiant Cymunedol |
| ▪ Ynni Adnewyddadwy | ▪ System Gynllunio Defnyddio Tir |
| ▪ Effeithlonrwydd Adnoddau | |
| ▪ Twristiaeth | |
| ▪ Trafnidiaeth | |

Er mwyn gwella'r rhyngweithio rhwng y meysydd polisi hyn, ffurfiodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** (PSBs). Nod y Byrddau hyn yw:

Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal trwy gryfhau cydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Aelodau statudol y PSB yw'r awdurdod lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub a CNC. Gwahoddir nifer o gyrff anstatudol eraill i ymuno hefyd, megis Gweinidogion Cymru neu Brif Gwnstablaid.

Datganiadau ardal

Mae Adran 11 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC, mewn cydweithrediad ag awdurdodau cyhoeddus eraill, baratoi adroddiadau ar adnoddau naturiol sydd wedi'u seilio ar le, o'r enw **datganiadau ardal**. Rhaid i bob datganiad ardal gynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- Yr adnoddau naturiol yn yr ardal;
- Y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu darparu; a'r
- Blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer SMNR, y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Bydd y datganiadau hyn hefyd yn ystyried y SoNaRR ac yn esbonio sut mae egwyddorion SMNR wedi'u cymhwyso wrth baratoi'r datganiad. Mae'n ofynnol hefyd i CNC gynnig sut mae'n bwriadu mynd i'r afael ag unrhyw heriau yn ogystal ag enwi cyrff cyhoeddus penodol a allai eu cynorthwyo.

Mae **'ardaloedd gweithredol'** presennol CNC, gydag ardal ychwanegol ar gyfer yr amgylchedd morol, wedi'u nodi ar gyfer maint daearyddol y datganiadau ardal sy'n ymdrin â Chymru gyfan (Ffigur 2). Cyhoeddwyd datganiadau rhagarweiniol ar gyfer: **Gogledd Ddwyrain Cymru, Gogledd Orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, De Ddwyrain Cymru, Canolbarth De Cymru, De Orllewin Cymru** a'r **Ardal forol** sengl.

Yn yr un modd â SoNaRR, disgwylir i'r datganiadau ardal gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau lleol o ran Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Cynllunio.


Gwnaeth CNC a Llywodraeth Cymru **gytundeb arfarnu cynaliadwyedd**, a ddywedodd fod disgwyl i'r datganiadau ardal gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019.

Bellach, fodd bynnag, **disgwylir** y datganiadau ardaloedd ym mis Mawrth 2020.

Treialon ardal

Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i redeg tri threial yn nalgylchoedd afonydd **Rhondda, Tawe a Dyfi**. Edrychodd y treialon hyn ar y ffordd orau i SMNR weithio ar y lefel leol. Mae **llyfryn gwybodaeth CNC** (PDF, 8.4MB) yn amlinellu'r manteision ymarferol ar gyfer pob un o'r ardaloedd treialu a'r cymunedau lleol hyn.

Area Statement areas and Unitary Authority boundaries



Ffigur 2 - Yr ardaloedd a ystyrir o dan y datganiadau ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - wedi'i addasu oddi ar wefan CNC

Sut y caiff llwyddiant ei fesur

Nid yw ymagwedd newydd Deddf yr Amgylchedd yn darparu unrhyw dargedau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus. Mae Pennod 7 o SoNaRR yn dweud:

It is not about trying to set targets to determine what the future state of ecosystems should be. The fact that we are dealing with complex, adaptive ecosystems means that our ability to make predictions about future states is limited.

Oherwydd y diffyg targedau penodol, bydd angen mesur llwyddiant Deddf yr Amgylchedd trwy arsylwi ar dueddiadau a newidiadau yn yr amgylchedd. Mae hyn yn dangos mor bwysig yw llunio SoNaRR a'r datganiadau ardal wrth graffu ar bolisi'r llywodraeth.

Blwch 3: I bwy mae'r Ddeddf yn gymwys?

Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol - Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod **pawb yng Nghymru yn rhanddeiliad yn yr amgylchedd ac yn disgwyl y bydd gan bawb ran i'w chwarae wrth ddilyn SMNR (PDF, 99KB).**

Mae Adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd yn ail-alinio pwrpas cyffredinol CNC i ddilyn SMNR o ran Cymru a chymhwyso egwyddorion SMNR.

Disgwylir hefyd i CNC gydweithio â chyrrff cyhoeddus eraill, gwneud cytundebau rheoli tir a chyflawni cynlluniau arbrofol i hybu SMNR.

Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau - Mae Deddf yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus, fel y'i diffinnir yn Adranau 6(9) a 6(10), "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau".

O dan Adran 7, disgwylir i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC i greu rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd sydd "o'r pwysigrwydd penaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth".

Ymateb i'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) - Mae Adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC lunio a chyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. O dan Adran 14, mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth addas i'r CNC er mwyn creu'r SoNaRR.

Y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) - Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol.

Datganiadau ardal - Mae Adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC baratoi a chyhoeddi datganiadau ardal. O dan Adran 14, mae'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus ddarparu gwybodaeth addas i'r CNC er mwyn creu datganiadau ardal.

Ymagwedd systemig

Fel y trafodwyd, mae **Llywodraeth Cymru wedi nod bod ymagwedd ‘ddi-fwlch’ systemig at SMNR yn hanfodol** gan ddweud nad oes modd mynd i'r afael â materion mawr megis yr amgylchedd ar eu pen eu hunain.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru, CNC, PSBs ac awdurdodau cyhoeddus ystyried SoNaRR a datganiadau ardal i lywio penderfyniadau o ran SMNR a'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chyfnerthedd ecosystemau. **Mae CNC yn gobeithio y bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau gan randdeiliaid nad ydynt yn y sector cyhoeddus**, megis busnesau, grwpiau cymdeithasol, elusennau a chymunedau yng Nghymru.

Disgwylir i Ddeddf yr Amgylchedd weithio ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Cynllunio i hybu ymagwedd systemig at yr amgylchedd gan yr awdurdodau cyhoeddus. **Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dwy ddogfen** sy'n egluro'r cysylltiadau rhwng y tair Deddf.

Mae amcanion SMNR, yn Neddf yr Amgylchedd, yn dangos cysylltiadau cryf â nodau llesiant y Ddeddf Llesiant. Mae un o'r nodau hyn, **'Cymru Gydnherth'** yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd bioamrywiaeth ac ecosystemau iach i "gynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid".

Mae Adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio egwyddorion datblygu cynaliadwy y disgwylir i'r awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â nhw o dan Ran 2 o'r Ddeddf Cynllunio. Mae **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Ddeddf Cynllunio, y mae'n ofynnol iddo gael ei arfarnu o safbwynt cynaliadwyedd y cynllun. Bydd SoNaRR yn ffurfio rhan o'r gronfa dystiolaeth ynghyd a'r blaenoriaethau, y cyfleoedd a'r risgiau a nodir trwy reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn caniatáu i'r awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r cynllun bioamrywiaeth a chyfnerthedd a nodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd fel rhan o'u blaen-gynlluniau ar gyfer llesiant.

Gellir gweld amcanion Deddf yr Amgylchedd o fewn y thema 'Ffyniannus a Diogel' yn strategaeth Llywodraeth Cymru, **'Ffyniant i Bawb'**. Diben y cynllun yw:

creu amgylchedd a fydd yn meithrin busnesau'r dyfodol, gan adeiladu ar adnoddau dynol, creadigol a naturiol Cymru, a chan wella ein cydnherthedd economaidd ac amgylcheddol.

Brexit a'r amgylchedd

Adeg ysgrifennu (Rhagfyr 2018), mae yna ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn y dyfodol.

Fel y nododd Llywodraeth Cymru, gallai ymadael â'r UE gael effaith arwyddocaol ar adnoddau naturiol gan fod cysylltiad cryf rhwng **fframweithiau polisi, cyfreithiol ac ariannol Cymru â chyfraith yr UE**.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi datgan y bydd Deddf yr Amgylchedd a'r NRP yn helpu i lywio unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol ar ôl Brexit** ac yn cyfrannu at ymrwymadau a chyfrifoldebau rhyngwladol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ar draws pob agwedd ar ddeddfwriaeth a pholisi Cymru**. Mae wedi cyhoeddi **'Diogelu Dyfodol Cymru' - Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop'** a oedd yn edrych ar bob agwedd ar Gyfraith Cymru mewn senario ar ôl Brexit. Mae Adran 8 (tudalen 29) yn ymwneud â'r amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad **'Brexit a'n Tir'** i edrych ar ddyfodol ffermio a defnydd tir yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y cynnig ar gyfer Cynllun Nwyddau Cyhoeddus y mae **Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru wedi'i ddisgrifio** fel cyfle unwaith mewn oes i lunio dyfodol ein tir a gwrth-droi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Mae yna ansicrwydd ynghylch dyfodol egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE a gynhwysir yn **Erthygl 191 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU)** ar ôl Brexit. Bwriad yr egwyddorion hyn yw llywio datblygiad cyfraith a pholisi'r UE er mwyn sicrhau bod safonau amgylcheddol uchel yn cael eu defnyddio wrth ddehongli cyfraith yr UE. Dyma bedair egwyddor graidd yr UE:

- Egwyddor atal;
- Yr egwyddor y dylai niwed amgylcheddol gael ei unioni yn llygad y ffynnon, a hynny fel blaenoriaeth;
- Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu; ac
- Egwyddor ragofal.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi dweud bod egwyddorion Cymreig SMNR a datblygu cynaliadwy yn rhoi Cymru ar y blaen yn y Deyrnas Unedig o ran unrhyw fwlch mewn egwyddorion amgylcheddol yn dilyn Brexit. **Dywedodd** (PDF, 624KB) fod yr egwyddorion hyn yn ehangach na phedair egwyddor amgylcheddol yr UE. Er hynny, clywodd y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ystod ei ymchwiliad i **gorff llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit** fod egwyddorion presennol Cymru yn ategu dull yr egwyddor atal a'r egwyddor rhagofal ond bod llai o ffocws ar yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Comisiynodd Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad **brosiect cymrodoriaeth academaidd** lle mae'r Dr Victoria Jenkins, Athro Cysylltiol yn Ysgol Gyfraith Hillary Rodham Clinton ym Mhrifysgol Abertawe yn ystyried y cyfleoedd ar gyfer SMNR yng Nghymru ar ôl Brexit yng nghyd-destun ymagwedd fframwaith deddfwriaethol y Deyrnas Unedig.

Y prif ffynonellau

Mae rhagor o ganllawiau a gwybodaeth i'w gweld isod:

Cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Cyflwyniad Llywodraeth Cymru i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Trosolwg o ddatganiadau ardal - CNC

Ymateb i'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol

Natur helaeth: Creu'r cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a phobl a lleoedd Cymru - CNC

Polisi Cyfoeth Naturiol Cenedlaethol Cymru

Wales, Brexit and Environmental Law - Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y Deyrnas Unedig